# Canolbarth a Gorllewin Iachach

## Cenedlaethau'r dyfodol yn byw bywydau iach



GIG CYMRU
NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

# Helo

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gweithio i wella iechyd a llesiant pobl yn y canolbarth a'r gorllewin. Ni sy'n gofalu am wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd megis:

- ysbytai
- meddygfeydd
- deintyddfeydd
- fferyllfeydd
- optometryddion (gofal llygaid)
- timau iechyd cymunedol
- canolfannai iechyd
- gwasanaethau iechyd meddwl.

**Rydym am sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn medru byw a bod yn iach.**

Dyma ein cynllun ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

Enw'r cynllun yw:

**Canolbarth a Gorllewin Iachach.**



# Pam

Mae heriau'n wynebu pob bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae mwy o bobl angen mwy o gymorth gan fwy o wasanaethau.

Mae'n rhaid gwneud rhywbeth, neu bydd pethau ond yn gwaethygu.

Nod y cynllun hwn yw helpu pobl i gadw'n iach ac i adfer yn gynt pan fydd ganddynt broblemau.

## Gwrando ar bobl

Yn 2018, gwnaethom siarad â phobl ar draws yr ardal:

- pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau
- teuluoedd
- gofalwyr
- meddygon
- nyrsys a staff eraill sy'n gweithio yn y gwasanaethau
- sefydliadau

Cawsom drafodaethau i glywed beth mae pobl yn meddwl y mae angen i ni ei wneud nawr ac yn y dyfodol. Bu i ni ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i'n helpu i ysgrifennu'r strategaeth newydd hon.

# Cyd-weithio

Dim ond un rhan o gefnogi pobl yw gwasanaethau iechyd a gofal. Mae gwasanaethau eraill yn effeithio ar iechyd pobl hefyd, megis tai a gofal cymdeithasol. Mae'r cynllun hwn yn helpu pawb i gyd-weithio'n well.



# Ein gweledigaeth

Rydym am i bobl fyw bywydau iach, llawen a phwrpasol gydag ymdeimlad o berthyn.

Rydym am i bobl a'u cymunedau fod yn:

- **Cysylltiedig –** medru cyd-fyw a chyd-weithio
- **Cefnogol –** medru helpu'i gilydd
- **Ymaddasol –** medru newid yn ôl yr angen
- **Gwydn –** medru ymateb yn bositif i heriau
- **Medrus –** medru canfod ffyrdd i oresgyn problemau.

# Ein nod


Mae llawer o bobl ond yn mynd at wasanaethau iechyd a gofal pan mae ganddynt broblem.

Os ydy pobl yn cael cefnogaeth yn gynt, mae'n aml yn stopio pethau rhag gwaethygu.

Rydym yn newid o fod yn wasanaeth sy'n trin salwch yn unig i fod yn wasanaeth sy'n cadw pobl yn iach.

Felly, rydym am gefnogi unigolion a theuluoedd mewn tri cham gwahanol o fywyd:

**dechrau a datblygu'n iach**



**byw a gweithio'n iach**




**tyfu'n hŷn yn iach**



# Beth rydym yn ei wneud

Rydym yn trefnu gwasanaethau iechyd a gofal fel eu bod yn gweithio gyda'i gilydd yn well. Mae timau eisoes yn cyd-weithio mewn saith ardal i ddarparu gofal sylfaenol.





Byddwn yn gweithio gyda'r ardaloedd hyn fel eu bod yn medru cefnogi mwy o bobl a chyd-weithio â nhw ar faterion pwysig a defnyddiol.

Bydd cael timau cysylltiedig mewn ardaloedd lleol a chael un pwynt cyswllt canolog yn helpu pobl i gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Bydd yr ardaloedd hyn yn medru darparu'r canlynol:

- gwasanaethau gofal sylfaenol megis Meddygon Teulu, deintyddion, optegwyr a fferyllfeydd
- gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cwnsela
- gofal a chymorth yn y cartref
- tai, gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill y cyngor
- cefnogaeth grwpiau cymunedol
- grwpiau gwirfoddol




DIOGEL, CYNALIADWY, HYGYRCH A CHAREDIG
GOFAL MEWN YSBYTY
GOFAL SY'N CANOLBWYNTIO AR UNIGOLION
BYW A GWEITHIO'N IACH
DOSBARTH YMARFER CORFF
GOFAL YN Y GYMUNED
DECHRAU A DATBLYGU'N IACH
caffi
TYFU'N HŶN YN IACH
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL GYDA'I GILYDD

# Sut y bydd yn gweithio

Dyma enghraifft o sut y bydd gwasanaethau iechyd a gofal yn gweithio yn y dyfodol.

I'n helpu i ddatblygu cynlluniau, rydym wedi creu teulu ffiglennol lleol. Darllenwch fwy am y teulu hwn yn y cynllun llawn sydd ar ein gwefan.





Roedd Mari mewn siop trin gwallt pan wnaeth faglu a chwympo.

Ffoniodd y staff 999.



Trosglwyddwyd yr alwad i'r ddesg glinigol. Yn lle anfon ambiwlans, anfonwyd parafeddyg cymunedol.



Gwnaeth y parafeddyg cymunedol drin briwiau a chrafiadau Mari yn y man a'r lle.

Rhoddodd wybod i'r Tîm Ymateb Cymunedol beth oedd wedi digwydd. Maen nhw'i gyd yn gweithio gyda'i gilydd felly mae'n hawdd rhannu'r wybodaeth.

Trefnodd y tîm amser i ymweld â Mari yn ei chartref.

Roeddent wedi ei chefnogi wrth iddi wella a dechrau symud o gwmpas eto ar ôl cwympo. Roedd hyn yn stopio pethau rhag gwaethygu.



# Ysbytai

Mae ysbytai yn rhan bwysig o hyn. Byddant yn gyswllt rhwng y timau cymunedol, ac yn gweithio gyda nhw.

## Yn ne ein hardal


Yn yr **ysbyty newydd**, bydd:

- gofal trawma
- prif adran damweiniau ac achosion brys ar agor 24/7
- gofal dwys
- gofal ysbyty i blant a babanod sâl
- triniaeth ar gyfer cyflyrau meddygol neu lawfeddygol cymhleth
- gofal iechyd meddwl arbenigol
- profion na ellir eu cynnal yn nes at adref

## Yng ngogledd ein hardal

Yn **Ysbyty Cyffredinol Bronglais**, Aberystwyth, bydd:

- adran damweiniau ac achosion brys ar agor 24/7
- gofal wedi'i gynllunio
- llawfeddygaeth neu driniaethau achos dydd
- uned dan arweiniad bydwragedd a genedigaethau risg isel dan arweiniad meddyg ymgynghorol
- clinigau cleifion allanol
- cemotherapi
- gofal diwedd oes




## Yn nwyrain ein hardal

Yn **Ysbyty Tywysog Philip**, Llanelli, bydd:

- uned mân anafiadau 24/7
- gofal dan arweiniad meddyg ymgynghorol ar gyfer oedolion mewn argyfwng meddygol
- gwasanaethau profion
- llawdriniaethau dydd risg isel
- cemotherapi
- profion
- gwasanaethau adfer
- gwelyau cleifion mewnol dros nos

## Yn ne a gorllewin ein hardal

Yn **Ysbyty Glangwili**, Caerfyrddin ac **Ysbyty Llwynhelyg**, Hwlffordd bydd:

- unedau mân anafiadau 24/7
- gofal therapi a nyrsio
- unedau dan arweiniad bydwragedd
- cemotherapi
- gofal diwedd oes
- clinigau cleifion allanol

## Gwasanaethau brys

Byddwn yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel bod gennym staff parafeddygol cymwys yn y gymuned.

Rydym hefyd yn gweithio gydag eraill i sicrhau:

- Ambiwlans Awyr Cymru 24/7
- Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS)

## Technoleg

Technoleg symudol newydd yng nghartrefi pobl, a fydd yn ein helpu i ofalu am bobl a'u cefnogi. Mae hyn yn golygu y gallant aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain am gyfnod hirach.

## Gofal arbenigol

Byddwn yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd eraill sy'n darparu gofal arbenigol iawn ar gyfer ein cleifion.

# Cymryd rhan

Os ydych am wybod mwy, darllenwch y cynllun cyfan yma:

bihyweldda.wales.nhs.uk/canolbarthagorllewiniachach

**Byddwn yn parhau i siarad â phobl ar hyd a lled ein hardal i ganfod beth yw'r pethau pwysicaf.**

I gymryd rhan, ewch i:

Siarad Iechyd / Talking Health bihyweldda.wales.nhs.uk

01554 899 056.

